

Gweithrediadau ysgolion o Ionawr 2022	School operations from January 2022
<p>Ar ba ddyddiadau y cynhelir y diwrnodau cynllunio, a phryd y bydd dysgwyr yn dychwelyd i'r ysgol?</p> <p>Dylai pob ysgol ddefnyddio'r ddau ddiwrnod cyntaf yn ôl yn syth ar ôl gwyliau'r Nadolig a'r flwyddyn newydd fel eu diwrnodau cynllunio. Gan fod dyddiadau tymor yn amrywio ledled Cymru, ni fydd y ddau ddiwrnod hyn yr un fath i bob ysgol.</p> <p>Bydd pob awdurdod lleol yn cadarnhau gydag ysgolion pa ddyddiadau sydd wedi'u neilltuo fel diwrnodau cynllunio. Bydd awdurdodau lleol hefyd yn hysbysu ysgolion sydd i fod i gymryd diwrnodau HMS ar ddechrau tymor y gwanwyn sut y bydd y diwrnodau cynllunio hyn yn cael eu dyrannu.</p> <p>Bydd pob dysgwr yn dychwelyd i ddarpariaeth ar y safle erbyn dydd Llun 10 Ionawr fan bellaf (a llawer yn ystod dyddiau olaf yr wythnos flaenorol).</p>	<p>On which dates will the planning days be held, and when will learners return to school?</p> <p>All schools should use the first two days back immediately after the Christmas and new year break as their planning days. As term dates vary across Wales, these two days will not be the same for all schools.</p> <p>Each local authority will confirm with schools which dates have been assigned as planning days. Local authorities will also inform schools due to take INSET days at the start of the spring term how these planning days will be allocated.</p> <p>All learners will return to onsite provision by Monday 10 January at the latest (and many during the final days of the previous week).</p>
<p>Sut ddylai ysgolion ddefnyddio'r ddau ddiwrnod cynllunio a ddyrannwyd ym mis Ionawr?</p> <p>Ry'n ni'n gwybod bod tymor yr hydref wedi bod yn heriol i ysgolion. Bydd y ddau ddiwrnod cynllunio ar ddechrau tymor y gwanwyn yn galluogi ysgolion i asesu capasiti staffio a rhoi'r mesurau angenrheidiol ar waith i gefnogi dychweliad pob dysgwr.</p> <p>Bydd hwn yn gyfle i ysgolion ailedrych ar eu cynlluniau wrth gefn, asesu lle mae angen mesurau ychwanegol gan ddefnyddio'r fframwaith rheoli heintiau lleol ac ystyried pa drefniadau y gallai fod angen bod ar waith ar gyfer dysgwyr bregus a phlant gweithwyr hanfodol yn ystod unrhyw gyfnodau o darfu.</p>	<p>How should schools use the two allocated planning days in January?</p> <p>We know that the autumn term has been challenging for schools. The two planning days at the start of the spring term will enable schools to assess staffing capacity and put the necessary measures in place to support the return of all learners.</p> <p>This will be an opportunity for schools to revisit their contingency plans, assess where additional measures are necessary using the local infection control framework and consider what arrangements might need to be in place for vulnerable learners and the children of critical workers during any periods of disruption.</p>

Bydd hefyd yn caniatáu i arweinwyr ysgolion uwchradd gynllunio i ddysgwyr sefyll eu harholiadau ym mis Ionawr yn ddiogel, ac i ailedrych ar eu cynlluniau wrth gefn i sicrhau bod blynyddoedd arholiadau yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer darpariaeth ar y safle pe bai angen cyfyngu ar ddysgu wyneb yn wyneb ar unrhyw adeg.

Mae'r diwrnodau cynllunio hefyd yn gyfle i sicrhau bod gennych gynlluniau cadarn ar waith i symud i ddysgu o bell; gallai hyn fod ar gyfer dosbarthiadau/grwpiau blwyddyn unigol neu o bosibl ar gyfer yr ysgol gyfan.

Dylai ysgolion hefyd ddefnyddio'r diwrnodau cynllunio i ystyried gweithrediad gwasanaethau eraill ar safle'r ysgol, megis clybiau ar ôl ysgol sy'n cael eu rhedeg gan ddarparwyr allanol. Mae'n ddyletswydd ar ddarparwyr i gymryd [pob mesur rhesymol](#) i sicrhau bod y gweithgareddau hyn yn digwydd mewn ffordd sy'n lleihau posibilrwydd o ddod i gyswllt â coronafeirws, ac efallai y bydd ysgolion am drafod gyda darparwyr y mesurau y gellir eu cymryd i alluogi'r ddarpariaeth hon i ddigwydd ar safle'r ysgol.

Efallai y bydd ysgolion am ddefnyddio'r ail ddiwrnod cynllunio i roi ar waith unrhyw newidiadau y maent yn eu hystyried yn gymesur, a chyfathrebu'r newidiadau hyn a phwysigrwydd profi cyn dychwelyd i'r holl staff, rhieni/gofalwyr a dysgwyr. Dylai ysgolion barhau i ddefnyddio'r [Fframwaith Penderfyniadau Rheoli Heintiau Lleol](#) i lywio eu trefniadau gweithredol.

It will also allow secondary school leaders to plan for learners to safely sit their January exams, and to revisit their contingency plans to ensure exam years are prioritised for onsite provision should there be a need to restrict in-person learning at any time.

The planning days are also an opportunity to ensure that you have robust plans in place to move to remote learning; this could be for individual classes/year groups or possibly for the whole school.

Schools should also use the planning days to consider the operation of other services on the school site, such as after school clubs run by external providers. Providers have a duty to take [all reasonable measures](#) to ensure that these activities take place in a way that minimises exposure to coronavirus, and schools may want to discuss with providers the measures that can be taken to enable this provision to take place on the school site.

Schools may want to use the second planning day to operationalise any changes they consider proportionate, and communicate these changes and the importance of testing before return to all staff, parents/carers and learners. Schools should continue to use the [Local Infection Control Decision Framework](#) to guide their operational arrangements.

Pa ddarpariaeth y mae disgwyl i ysgolion ei chynnis yn ystod y dyddiau cynllunio hyn?

What provision are schools expected to offer during these planning days?

<p>Rydym yn cydnabod y gallai'r diwrnodau cynllunio hyn effeithio ar y dyddiad yr oedd rhieni a gofawyr yn disgwyl i'w plant ddychwelyd i'r ysgol yn y flwyddyn newydd. Lle mae hynny'n wir, ar yr ail ddiwrnod, byddem yn disgwyl i ysgolion ystyried pa ddarpariaeth y gallai fod angen ei rhoi ar waith ar gyfer plant bregus a phlant gweithwyr hanfodol. Yn y lle cyntaf, dylai rhieni ystyried yr holl opsiynau eraill sydd ar gael iddynt a gofyn am ddarpariaeth o'r fath dim ond os oes rhaid. Dylai ysgolion ac awdurdodau lleol hefyd roi sylw i anghenion ehangach eu cymuned ac effaith unrhyw benderfyniadau i beidio â rhoi darpariaeth o'r fath ar waith.</p>	<p>We recognise these planning days may impact on the date that parents and carers were expecting their children to return to school in the new year. Where that is the case, on the second day, we would expect schools to consider what provision may need to be put in place for vulnerable children and the children of critical workers. In the first instance, parents should explore all alternative options and only request such provision if it is necessary. Schools and local authorities should also have regard to the wider needs of their community and the impact of any decisions not to put in place such provision.</p>
<p>A fydd darpariaeth prydau ysgol am ddim yn ystod y ddau ddiwrnod cynllunio hyn?</p> <p>Bydd - dylai dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim eu derbyn. Gall awdurdodau lleol hawlio am hyn trwy'r Gronfa Caledi Llywodraeth Leol.</p>	<p>Will there be free school meal provision during these two planning days?</p> <p>Yes - eFSM learners should receive free school meals. Local authorities can claim for this via the Local Government Hardship Fund.</p>
<p>Pa aelodau staff sydd disgwyl iddynt fynychu safle'r ysgol yn ystod y diwrnodau cynllunio?</p> <p>Dylai ysgolion benderfynu pa aelodau staff y mae'n ofynnol iddynt fod ar safle'r ysgol, a pha aelodau staff all wneud eu gwaith paratoi o bell, yn ystod y diwrnodau cynllunio. Ni fyddem yn disgwyl i unrhyw staff ysgol a oedd yn disgwyl cael eu talu am y dyddiau hyn fod dan anfantais o ganlyniad i'r diwrnodau cynllunio.</p> <p>Bydd yn bwysig i ysgolion barhau i gofio am y mesurau lliniaru craidd sy'n parhau yn eu lle yn ystod y dyddiau cynllunio. Dylai staff sy'n mynychu safle'r ysgol ar y diwrnodau cynllunio ddefnyddio prawf llif ochrol cyn mynychu'r gwaith a dylent wisgo gorchudd wyneb lle na ellir cynnal</p>	<p>Which members of staff are expected to attend the school site during the planning days?</p> <p>Schools should decide which members of staff are required to be on the school site, and which members of staff can undertake their preparatory work remotely, during the planning days. We would not expect any school staff who were expecting to be paid for these days to be disadvantaged as a consequence of the planning days.</p> <p>It will be important for schools to continue to be mindful of the core mitigation measures that remain in place during the planning days. Staff attending the school site on the planning days should take a lateral flow test before attending work and should wear a face covering where physical</p>

<p>pellter corfforol. Dylai ysgolion leihau ar niferoedd uchel o bobl yn ymgynnull mewn ardaloedd bach, defnyddio gofodau sydd wedi'u hawyru'n dda, ac annog cynnal pellter corfforol lle bo hynny'n bosibl.</p> <p>Dylai unrhyw benderfyniadau a wneir yn ystod y diwrnodau cynllunio sy'n effeithio ar gyrff eraill, fel darparwyr clybiau ar ôl ysgol, gael eu cyfathrebu cyn gynted â phosibl.</p>	<p>distancing cannot be maintained. Schools should minimise large numbers gathering in small areas, use large well-ventilated spaces, and encourage physical distancing where possible.</p> <p>Any decisions made during the planning days that impact other bodies, such as providers of after school clubs, should be communicated swiftly.</p>
<p>A fydd unrhyw newidiadau i'r canllawiau gweithredol ar gyfer ysgolion?</p> <p>Dylai ysgolion gynllunio ar y sail y bydd y trefniadau dros dro a gyflwynwyd ar 29 Tachwedd 2021 i gynghori'r holl staff a dysgwyr oed uwchradd i ddefnyddio gorchuddion wyneb mewn ardaloedd cymunol ac ystafelloedd dosbarth lle na ellir cynnal pellter corfforol yn parhau mewn lle ar gyfer y dychwelyd i'r ysgol ym mis Ionawr; bydd hyn yn parhau i gael ei adolygu.</p> <p>Bydd beth fyddwn yn dysgu am yr amrywiolyn Omicron dros yr wythnosau nesa efallai yn galw am ymyriadau ar gyfer y lefelau risg uwch fel a nodir yn ein Fframwaith Penderfyniadau Lleol. Fel dull rhagofalus, rydym yn cynghori ysgolion i gynllunio camau lliniaru ar gyfer y dychweliad ar sail y lefel risg 'uchel iawn' fel a nodir yn y Fframwaith.</p> <p>Mae'n dal i fod yn bwysig bod staff a dysgwyr yn parhau i ddefnyddio Profion Llif Ochrol yn rheolaidd yn ystod y tymor fel y gallwn ddod o hyd i ac ynysu'r rhai a allai fod yn heintus i eraill yn ddiarwybod. Bydd hyn yn arbennig o bwysig, nawr ac yn y tymor newydd, wrth i ni gasglu tystiolaeth a datblygu gwell dealltwriaeth o'r amrywiolyn Omicron. I'r dyfodol, ein disgwyliad cryf yw y dylai'r holl staff a dysgwyr oed</p>	<p>Will there be any changes to the operational guidance for schools?</p> <p>Schools should plan on the basis that the temporary measure introduced on 29 November 2021 to advise all staff and secondary-aged learners to use face coverings in communal areas and classrooms where physical distancing cannot be maintained will remain in place for the return in January; this will continue to be kept under review.</p> <p>What we learn about the Omicron variant over coming weeks may require interventions for the higher risk levels as set out in our Local Decision Framework. As a precautionary approach, we advise schools to plan mitigations for the return based on the 'very high' risk level as set out in the Framework.</p> <p>It will continue to be important that staff and learners continue regular Lateral Flow Testing in term time so we can find and isolate those who are potentially infectious to others without knowing. This will be particularly important, now and in the new term, while we gather evidence and build our understanding of the Omicron variant. Moving forward, our strong expectation is that all staff and learners of secondary age should test three times a week before entering school using LFDs (on Monday,</p>

uwchradd brofi **deirgwaith** yr wythnos cyn mynd i'r ysgol gan ddefnyddio Profion Llif Ochrol (ddydd Llun, dydd Mercher a dydd Gwener) a chofnodi eu canlyniadau.

Bydd ysgolion yn cael eu hysbysu gan eu hawdurdod lleol os bydd unrhyw newidiadau yn cael eu gwneud i'r canllawiau.

Wednesday and Friday) and record their results.

Schools will be informed by their local authority if any changes are made to the guidance.